

From: [REDACTED]
To: [REDACTED]
Subject: 2022/00773/Full land north of the railway line
Date: 28 September 2026 06:05:49

Annwyl Sian Gwenllian,

Rydw i'n wreiddiol o Gaernarfon ond wedi symud lawr i Gaerdydd ers 25 o flynyddoedd bellach. Dechreuon ni'n teulu yn Mharc Coed Helen ar lan y Fenai. Rydym ni rwan yn edrych ymlaen i ymddeol mewn chydig o flynyddoedd. Rydym yn drigloion newydd i Rhoose, symudon ni yma Mis Mai dwytha i fod wrth y mor unwaith eto.

Roeddau yn ymwybodol or cynlluniau i adeiladu dros 300 o dai cyn symyd yma. Ers symyd mae gweld y cyfoeth o fywyd natur yn y caeau wedi bod yn bleser i wylïo . Mae'n dor calonus bod y tai yma am ddwyn cynhefin y bywyd yma . [REDACTED] fy wyres fach wrth ei bodd yn gwrandao ar y criciaid yn "sgwrsio" fel ma hi'n dweud! A'n gwylïo'r adar sglyfeuthus yn hela yn y dydd, a ystlumod fin nos.

Nid wyf yn erbyn datblygu tai ond rwy'n poeni am yr effaith mae y datblygiad yma am gael ar y pentref ar gymuned. Hwn yw'r cae gwyrdd olaf yma! Mae Rhoose yn brysur newid, o fod yn bentref i fod yn dref, a hyn heb yr seilwaith i ymdopi. Mae coleg newydd am agor yn 2027, ar y brif lôn allan o'r pentref. Mi fydd y pwysau wedyn o dros 300 o dai ar ben y coleg yn creu problem traffig enfawr ar lôn wledig. Mae dwy ysgol yma yn Rhoose, a bydd dros 300 o dai ychwanegol yn rhoi pwysa ar yr ysgolion yma. Dwi'n gweithio mewn ysgol yn Llandaf ac yn gwybod bod sefylla arianiol ysgolion ymhell o fod yn berffaith ar y funyd! Un pryder arall mae'r ddwy ysgol drwy gyfrwng saesneg does dim darpariaeth i deuloedd sydd yn dewis addysg gymraeg yma!

Dyweddodd Ian Robinson "head of sustainable development " i'r cyngor "Rhoose is one of the most sustainable settlements in the vale, maybe not the best" a wedyn "the local services are likely to be put under pressure and something will need to be done" felly mae o'n cydnabod bod y cynllun am greu problemau!

Rwy'n gofyn i chi fel aelod o'r senedd i wir ystyried effaith y datblygiad yma ar Rhoose y gymuned a chymunedau y dyfodol. Mae ein plant angen gweld gwyrddni a bywyd natur. Unwaith mae'r ceuau wedi mynd does dim cael nhw'n ôl. When they are gone they are gone!

Gyda diolch

[REDACTED]
Rhoose
Barry
Vale of Glamorgan

